

Kier Construction Western & Wales

Tredegar Wellbeing Hub

ISSUE 02



Welcome to the second joint edition of the Tredegar Health and Well-being Centre newsletter from Kier Construction Western and Wales, in partnership with Aneurin Bevan University Health Board (ABUHB).

Project Update

On site works completed:

- Works to the existing Health Centre to make the building services independent from the old Hospital building
- The rear carpark has been sectioned off to enable construction works to commence
- Hoarding works to secure the old hospital site are now in place
- Ecology mitigation strategy has been implemented on the site

Where we are now – Hospital Demolition:

We are now moving to another phase of the development; this being, the preparation of Tredegar Hospital for demolition. This work will involve the clearing of the internal infrastructure of the hospital of asbestos in preparation for the hospital to be safely demolished. These works will commence on the 11th May 2020. The timeline of events are as follows:

- Site mobilisation and setup for Kier and contractors
- Asbestos removal and soft strip
- Façade retention scheme for Heart Building
- Commencement of demolition of main structure

Resident concerns around this phase of work have been noted; these being the movement of heavy equipment, dust, noise, contractor parking and communication. These issues will be dealt with as follows:

- Kier will aim to minimise the impact of vehicle movements and deliveries as much as possible through continuous coordination with its delivery partners and supply chain.

- Dust will be continuously monitored during the works and any dust produced during the demolition will be minimised where possible by the selection of controlled demolition methods. Damping down using hoses and proprietary dust suppression equipment will also be used to help minimise dust production.
- Contractor parking will be kept within the site compound during this first phase of works.
- Local residents will be notified of any significant changes to site activities with further newsletters.

COVID 19 – Management Strategy:

Our teams across the Group work tirelessly to deliver vital infrastructure and services to communities across the UK. The health, safety and wellbeing of our people is our number one priority. We have reviewed all of our sites to ensure that we are operating in a way that continues to comply with the Construction Leadership Council's site operating procedures. Where we are unable to comply, operations will stop.

- During this time of COVID 19 the plan for the internal clearance works and demolition of the old hospital will continue in line with construction guidance.
- Week commencing 11th May, Kier contractors will be accessing the site to prepare the old Tredegar hospital site for demolition.
- Kier Contractors will wear full protective equipment which will be fully compliant and in line with building industry and Welsh Government guidelines.

Next Steps:

- Following the completion of the demolition works in September 2020 the site will be subject to further ground investigations and pre-construction works prior to starting construction of the new building.

- Subject to Welsh Government approval construction of the new Health & Wellbeing Centre will commence in January 2021.

Service Update

Whilst works are ongoing on the Tredegar Health and Wellbeing Centre, we will still be providing services as usual. We will keep the community updated on arrangements as we transition to the new build. The Health Board will provide further updates during the course of works.

Community Engagements

These are currently on hold due to the COVID 19 restrictions but will be reviewed in line with Government directions.

Residents Group

The most recent Residents Group meeting took place on 4th March 2020 at Bedwellty House. The meetings are for those who live in the streets directly surrounding the Health Centre.

At the last meeting the residents raised concerns regarding parking on Market Street and Park Row and speed of traffic on Park Row. Whilst these issues have been around for a long time, and not all of these issues are in control of the Health Board, we will work with partners in Local Authority to see what's possible. These meeting were planned to be held 6 weekly and will resume once the lockdown has been removed.

We also want to talk with the wider public. The Health Board plans to attend a number of venues in the community in the near future – we will advertise these dates through leaflets and posters in community areas.

If you want to be kept up to date on the schedule of events via email, let us know on the Tredegar email address:

TredHWBC.feedback@wales.nhs.uk



Hyb Lles Tredegar

RHIFYN 02



Croeso i ail rifyn newyddlenni Canolfan Iechyd a Lles Tredegar ar y cyd gan Kier Construction Cymru a'r Gorllewin mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).

Newyddion y Prosiect

Y gwaith a gyflawnwyd ar y safle:

- Gwaith ar y Ganolfan Iechyd bresennol i gadw'r gwasanaethau adeiladu ar wahân wrth hen adeilad yr Ysbyty
- Mae'r maes parcio yn y cefn wedi cael ei neilltuo fel y gall y gwaith adeiladu ddechrau
- Codwyd y byrddau palis i ddiogelu safle'r hen ysbyty
- Rhoddwyd strategaeth lliniaru ecoleg ar waith ar y safle

Y sefyllfa gyfredol - Dymchwel yr Ysbyty:

Rydyn ni'n symud ymlaen i gam nesaf y datblygiad nawr; sef paratoi Ysbyty Tredegar ar gyfer y gwaith dymchwel. Bydd hyn yn cynnwys clirio'r asbestos o seilwaith mewnol yr ysbyty fel y gellir dymchwel yr adeilad yn ddiogel. Bydd y gwaith yma'n dechrau ar 11 Mai 2020.

Dyma'r amserlen ar gyfer y gwaith:

- Agor y safle a'i pharatoi ar gyfer Kier a'r contractwyr
- Clirio'r asbestos a stripio'r adeilad
- Gweithredu'r cynllun i gynnal talwyneb Adeilad Calon
- Dechrau dymchwel y prif strwythur

Nodwyd pryderon trigolion am y rhan yma o'r gwaith; sef cludo peiriannau trwm yn ôl ac ymlaen, llwch, sŵn, parcio i'r contractwyr a chyfathrebu. Byddwn ni'n delio â'r problemau hyn fel a ganlyn:

- Bydd Kier yn gwneud pob ymdrech i leihau symudiadau cerbydau trwm a chludo nwyddau cymaint â phosibl trwy gydweithio'n barhaus â'r partneriaid cyflawni a'r gadwyn gyflenwi.
- Byddwn ni'n monitro llwch yn barhaus yn ystod y gwaith, a byddwn yn

lliniaru faint o llwch y mae'r broses dymchwel yn ei gynhyrchu trwy ddefnyddio dulliau dymchwel dan reolaeth. Byddwn yn dampo hefyd gan ddefnyddio pibellau chwistrellu a chyfarpar lliniaru llwch er mwyn atal llwch rhag lledu.

- Byddwn yn cadw parcio i gcontractwyr o fewn y safle gwaith yn ystod rhan gyntaf y gwaith.
- Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r trigolion am unrhyw newidiadau arwyddocaol pellach o ran gweithgareddau'r safle mewn newyddlenni pellach.

COVID 19 – Ein strategaeth Reoli:

Mae ein timau ar draws y Grŵp yn gweithio'n ddiflino i ddarparu seilwaith a gwasanaethau hanfodol ar gyfer cymunedau ar draws y DU. Iechyd, diogelwch a llesiant ein pobl yw ein blaenoriaeth bennaf. Rydyn ni wedi adolygu ein holl safleoedd er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithredu mewn ffordd sy'n dal i gydymffurfio â 'gweithdrefnau'r Cyngor Arwain Gwaith. Adeiladu ar weithredu safleoedd gwaith. Lle na allwn gydymffurfio, byddwn ni'n atal ein gwaith.

- Yn ystod y cyfnod hwn o COVID 19, bydd y cynlluniau gwaith i glirio'r adeilad a dymchwel yr hen ysbyty'n parhau yn unol â'r canllawiau adeiladu.
- Yn ystod wythnos 11 Mai, bydd contractwyr Kier yn cychwyn gwaith ar y safle i baratoi ar gyfer dymchwel adeilad hen ysbyty Tredegar.
- Bydd contractwyr Kier yn gwisgo offer amddiffynol llawn a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â chanllawiau'r diwydiant adeiladu a rhai Llywodraeth Cymru.

Y camau nesaf:

- Ar ôl cwblhau'r gwaith dymchwel ym mis Medi 2020, caiff gwaith ymchwilio pellach ei gyflawni ar y safle, a bydd y gwaith rhagbarato'i'n dechrau er mwyn cychwyn y gwaith i adeiladu'r adeilad newydd.

- Os bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi caniatâd, bydd y gwaith i adeiladu'r Ganolfan Iechyd a Llesiant newydd yn dechrau yn Ionawr 2021.

Newyddion am Wasanaethau

Byddwn ni'n parhau i ddarparu gwasanaethau fel arfer yn ystod y gwaith i adeiladu Canolfan Iechyd a Llesiant Tredegar. Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r gymuned am y trefniadau wrth i ni bontio i ddefnyddio'r adeilad newydd. Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnig diweddarriadu pellach wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae'r digwyddiadau ymgysylltu wedi eu gohirio am y tro oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ond byddwn yn eu hadolgyu yn unol â chyfarwyddyd y Llywodraeth.

Y Grŵp Trigolion

Cynhalwyd cyfarfod diweddaraf y Grŵp Trigolion yn Nhŷ Bedwellty ar 4 Mawrth. Mae'r cyfarfodydd i'r bobl hynny sy'n byw yn y strydoedd sy'n amgylchynu'r Ganolfan Iechyd.

Yn y cyfarfod diwethaf, cododd y trigolion bryderon am barcio ar Stryd y Farchnad a Rhes y Parc, a chyflymdra'r traffig ar Res y Parc. Er bod y problemau hyn wedi bodoli ers amser hir, ac nad ydyn nhw i gyd o fewn rheolaeth y Bwrdd Iechyd, byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn yr Awdurdod Lleol i weld beth sy'n bosibl. Y bwriad oedd cynnal y cyfarfodydd hyn bob 6 wythnos, a byddan nhw'n parhau pan ddaw'r cyfyngiadau ar symud i ben.

Rydyn ni'n awyddus i siarad â'r cyhoedd ar led hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu mynchu nifer o ganolfannau yn y gymuned yn y dyfodol agos - byddwn ni'n hysbysebu'r dyddiadau hyn trwy daflenni a phosteri yn y gymuned.

Os ydych am gael clywed am yr amserlen o ddigwyddiadau trwy e-bost, cysylltwch â ni gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost Tredegar: TredHWBC.feedback@wales.nhs.uk

